**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

**Dyddiad:** 25 Tachwedd 1999

**Amser: 9.30 am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynylliad Cenedlaethol**

**Teitl: ADRODDIAD AR FFORWM EWROPEAIDD CYMRU DDYDD GWENER 22 HYDREF 1999**

**Pwrpas**

1. Adrodd yn ôl am gyfarfod cyntaf Fforwm Ewropeaidd Cymru a gynhaliwyd ddydd Gwener 22 Hydref 1999 a darparu rhaglen fras ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm yn Ebrill 2000.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

**Cefndir**

3. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Fforwm Ewropeaidd Cymru ar Faterion Ewropeaidd ddydd Gwener 22 Hydref yn Arena Rhyngwladol Caerdydd.

4. Roedd dros 100 o gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn bresennol yn y Fforwm.

5. Rhoddodd y Prif Ysgrifennydd anerchiad agoriadol byr cyn cyflwyno Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd Neil Kinnock i draddodi araith am ragolygon y Comisiwn newydd a'r goblygiadau o safbwynt Cymru. Rhannwyd y cynrychiolwyr yn weithgorau llai am weddill y diwrnod. Gwnaed cyflwyniad ger bron pob grðp gan arbenigwr yn ei faes penodol ar nifer o faterion ar yr agenda Ewropeaidd, yn cynnwys Polisi Trafnidiaeth, Cymorth y Wladwriaeth, Cyfle Cyfartal a Chynrychiolaeth Gymreig ym Mrwsel. Yna gwahoddwyd y grwpiau i archwilio'r materion hynny drwy drafodaeth ac adrodd yn ôl i'r Fforwm, trwy gyfrwng adroddwr.

6. Ar y cyfan cafodd y diwrnod dderbyniad da iawn a chafwyd trafodaeth fywiog yn y gweithgorau a'r sesiwn lawn.

7. Mae adroddiad llawn o’r gweithrediadau wrthi’n cael ei baratoi a chaiff ei ddosbarthu i bob cynrychiolydd ac aelod pwyllgor yn fuan.

8. Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref cytunodd y Pwyllgor i gynnal ail Fforwm yn Ebrill 2000. Cynigir y dylid cynnal yr ail gyfarfod tua diwedd Ebrill 2000 yng Ngogledd Cymru. Mae profiadau’r Fforwm cyntaf yn awgrymu y byddai’n well cwblhau’r busnes mewn hanner diwrnod, a chynigir sesiwn bore (i’w ddilyn gan ginio bwffe). Awgrymir thema gyffredinol ar gyfer y Fforwm sef "Ewrop a Busnes". Bydd y Fforwm yn seiliedig ar fformat tebyg i gyfarfod mis Hydref, a bydd yn gymysgedd o sesiynau llawn a gweithgorau. Rhoddir gwahoddiad i amrywiaeth eang o gyrff a sefydliadau sector preifat yn ogystal â chyrff cyhoeddus sy’n gweithio ym maes datblygu economaidd a busnes. Awgrymir y themâu canlynol ar gyfer y gweithgorau: " Yr Ewro a Busnes yng Nghymru", "Effaith Deddfwriaeth Ewropeaidd ar Fusnes" ac "Ehangu’r Undeb Ewropeaidd a’i oblygiadau o safbwynt Busnesau Cymreig". Mae rhaglen ar gyfer y gynhadledd hanner diwrnod yn cael ei pharatoi.